

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 15

Key language

Perfect tense - Rydw i wedi etc.

Dod â

Mynd â

Comparison of adjectives - da/drwg

New words

ar y cyfan	-	on the whole
eitha	-	not bad
celwydd	-	a lie
rhwystredig	-	frustrated
blino	-	to tire
trafod	-	to deal in
dallt (NW)	-	to understand
yn union	-	exactly
haws	-	easier
synnu	-	to be surprised
crasfa (SW)	-	a beating
cweir (NW)	-	a beating
cwsmer	-	customer
rheswm	-	reason
amhosibl	-	impossible
addo	-	to promise
oedolion	-	adults
isel	-	low
cyfle	-	a chance
i fod i	-	supposed to
gwydryn	-	a glassful
rhagor	-	more
tameidiau	-	bits
nôl	-	to fetch
cadach (NW)	-	a cloth
clwtyn (SW)	-	a cloth
gofalus	-	careful
trochi (SW)	-	to dirty/to spoil
galw	-	to call
yn falch	-	glad
mas draw (SW)	-	very much
rhew du	-	black ice
annwyd	-	a cold
tanio	-	to fire (to start the engine of a car)
druan	-	poor thing
saethu	-	to shoot
amlwg	-	obvious
o ddifri	-	seriously
chwalu	-	to destroy
priodas	-	marriage
peryl	-	danger
clou (SW)	-	quick
dychryn	-	to frighten
er fy mwyn fy hun	-	for my own sake

Main Grammatical Points

Perfect tense - Rydw i wedi

Note Welsh for the verb form has or have been - wedi bod

Dw i wedi bod	I have been
Rwyt ti wedi bod	You've been
Mae e/o wedi bod	He's been
Mae hi wedi bod	She's been
Rydyn ni wedi bod	We've been
Rydych chi wedi bod	You've been
Maen nhw wedi bod	They've been

Wedi bod is followed by 'yn' and a verb noun, for example

Jenny says 'Wyt ti'n meddwl bod Brian wedi bod yn cael affêr?' - Do you think Brian's been having an affair?

You would expect the answer to the question form Wyt ti wedi? to be Ydw or Nac ydw. For example - Wyt wedi cael cinio? - Ydw or Nac ydw

However don't be surprised if you hear some people responding with the answer 'Do' or 'Naddo'. This is quite common in colloquial Welsh.

Wyt ti wedi gorffen? - Do
Wyt ti wedi bod? - Naddo

Dod â/Mynd â

Dod and mynd are two very common verbs - Dod - to come - Mynd - to go

However when they are followed by 'â' they take different meanings

'Mynd â' means 'to take' - to take someone or something somewhere

Dw i'n mynd â'r car i'r garej - I'm taking the car to the garage

'Dod â' means 'to bring'

Tyrd â'r papur yna yma - Bring that paper here.

Comparison of Adjectives - Da/Drwg

Da and drwg are very common adjectives. However in their comparative forms they are irregular

Cystal	as good as or so good
Dydy e ddim cystal	He's not so good
Dydy e ddim cystal â'i frawd	He's not as good as his brother
Gwell	better
Wyt ti'n well?	Are you better?
Gorau	The best
Hi yw'r gorau	She's the best

Note that gorau is used in an emphatic sentence

Drwg

bad

Cynddrwg or Mor ddrwg

As bad as or so bad

Doedden nhw ddim cynddrwg â hynny

They weren't as bad as that

Mae e/o mor ddrwg

He's so bad

Gwaeth

worse

Mae e'n waeth

He's worse

Gwaetha

The worst

Nhw yw'r gwaetha

They're the worst

Ysbyty Brynaber: Episode 43

Jenny and Agnes are discussing Brian's condition now that he has returned home. The police have suggested to Agnes that Brian might have been having an affair and that was the reason for the attack on him. Agnes thinks that it's absurd to suggest such a thing.

Geirfa

ar y cyfan	-	on the whole
eitha	-	not bad
celwydd	-	a lie
rhwystredig	-	frustrated
blino	-	to tire
trafod	-	to deal in
dallt (NW)	-	to understand
yn union	-	exactly
haws	-	easier
synnu	-	to be surprised
crasfa (SW)	-	a beating
cweir (NW)	-	a beating
cwsmer	-	customer
rheswm	-	reason
amhosibl	-	impossible

Golygfa 1

Jenny - A sut benwythnos ges ti?

Agnes - Eitha...

Jenny - Eitha be?

Agnes - Wel, na - dw i'n dweud celwydd - weddol O.K-ish...Ar y cyfan...

Jenny - A sut oedd Brian?

Agnes - Wel... Roedd hi'n braf ei gael e yn ôl gartref, wrth gwrs...

Jenny - Greda i...

Agnes - Ond a bod yn berffaith onest, mae e'n lot o waith...dydy e ddim yn gallu cerdded yn iawn...a mae e'n trio gwneud gormod trwy'r amser...

Jenny - Fydd rhaid iti gael help...

Agnes - Bydd...Ond rhyngddo ti a fi a'r wal yma, Jen...Erbyn nos Sul roeddwn i'n teimlo byddai hi'n well petai Brian wedi aros yn yr ysbyty yma am gwpwl o wthnosau eto...

Agnes - Mae e'n rhwystredig.

Jenny - Greda i...

Agnes - A chaiff e ddim gyrru car am amser...

Jenny - Sy'n rhwystredig iawn iddo fo o bawb....

Agnes - Rhwystredig ofnadwy...Ceir a thrafod ceir...A gyrru ceir Dyna beth yw ei fyd e...Ac mae Brian yn mynd mor grac am bopeth...

Jenny - Elli di ddallt hynny.

Agnes - Wy'n gallu deall yn iawn, ond dw i'n gorfod bod yn ofalus gyda fe... peidio bod yn grac gyda fe...

Jenny - Ddim fo ydy'r unig un sy'n rhwystredig.

Agnes - Yn union, Jen. Dw i'n rhwystredig iawn hefyd. Rhwystredig uffernol.

Jenny - Ond mi ddaw pethau'n haws...Fydd o'n gallu cerdded yn iawn eto...A gyrru car, gei di weld...

Agnes - Gydag amser.

Jenny - Roeddwn i'n meddwl ei fod o'n cerdded yn weddol pan welais i o yr wythnos ddiwetha...

Agnes - Ydy. Gweddol. O feddwl sut roedd e ddechrau'r flwyddyn. Ond dydy e ddim yn meddwl hynny. Ac mae e'n blino'n hawdd...Alwodd yr heddlu hefyd.

Jenny - Do? Pryd?

Agnes - Prynhawn dydd Sadwrn.

Jenny - Ydyn nhw wedi dal y Tony yma?

Agnes - Na ...

Jenny - Be ddwedon nhw?

Agnes - Aethon nhw dros 'statement' Brian eto...

Jenny - Pam?

Agnes - Doedden nhw ddim yn glir am rai pethe...Yn dawel fach, ma'r heddlu yn meddwl bod Brian wedi bod yn cael affêr, ti'n gweld...

Jenny - Affêr?

Agnes - Ie...Affêr...

Jenny - Ag ydy o wedi cael affêr?

Agnes - Wel, beth wyt ti'n feddwl?

Jenny - Be ti'n feddwl, 'ydy'r cwestiwn

Agnes - Jenny! Dere nawr! O ddifri? Wyt ti'n meddwl fod Brian wedi bod yn cael affêr?

Jenny - Dwed ti...

Agnes - Wyt ti wir yn meddwl fod hynny'n bosibl?

Jenny - Dydy o ddim yn amhosibl.

Agnes - Ond o adnabod Brian?

Jenny - Efallai...

Agnes - Efallai! Jenny - dw i'n synnu at at ti!

Jenny - Na, efallai ddim...wedi meddwl am y peth...

Agnes - Paid edrych fel yna! Yffach! 'Come off it!' Brian yn cael affêr, wir! Mae'r peth yn hurt!

Agnes - A beth bynnag: dwedodd Brian wrtho i a'i law ar y Beibl taw rhywbeth i wneud â'r garej yw hyn...

Jenny - Y garej?

Agnes - Ie. Rhyw 'grudge' gan rhyw gwsmer...roedd y Tony yna wedi cael ei dalu i roi crasfa i Brian...

Jenny - Dyna be ddwedodd Brian?

Agnes - Ie. Ac mae'r heddlu nawr yn mynd trwy data base y garej...Y reps...Y cwsmeriaid...Pawb a phopeth...

Jenny - Wyt ti'n meddwl fod hynny'n wir?

Agnes - Pa reswm arall allai fod? Ag roedd Jac Wheelan, ffrind Brian draw nos Sadwrn a dwedodd e bod yr un peth wedi digwydd iddo fe...

Jenny - Cael cweir?

Agnes - Ia. Crasfa ofnadw. Gan rhyw ffermwr. Werthodd Jac Land Rover iddo fe - ag roedd y ffermwr yn meddwl ei fod e wedi fficsio'r milltiroedd...A ddaeth e draw a rhoi crasfa i Jac...

Jenny - Bobol bach!

Agnes - Roedd Jac yn gweud bod cymaint o crwcs a conmen yn y busnes ceir ail-law 'ma...Ond mae'r heddlu'n bownd o ddal y Tony yma.

Jenny - Os mai dyna ei enw iawn o....

Agnes - Ie. Os taw dyna ei enw iawn e...Ond ddylai fe gael i gosbi am beth wnaeth e i Brian...Mater o amser fydd hi, medda'r heddlu.

Jenny - Gobeithio wir.

Agnes - Beth wyt ti ac Arwyn yn wneud nos yfory?

Jenny - Dim lot o ddim...

Agnes - Beth am ddod draw?

Jenny - Wyt ti eisiau?

Agnes - Wrth gwrs...

Jenny - Wyt ti'n siwr na fyddwn ni ddim dan draed?

Agnes - Na. Fyddwch chi'n help mawr i fi.

Jenny - Os felly - ddown ni draw...

Agnes - Dewch tua wyth...Ddweda i ddim byd wrth Brian...dw i'n siwr bydd e'n sypreis neis iddo fe...

Jenny - Iawn 'te. Mi ddaw Arwyn a fi draw.

Agnes - I'r dim. Edrych ymlaen i'ch gweld chi'ch dau.

Ysbyty Brynaber: Episode 44

Arwyn and Jenny Saunders are spending the evening at the Rees household. Brian proves to be quite a handful.

Geirfa

addo	-	to promise
oedolion	-	adults
isel	-	low
cyfle	-	a chance
i fod i	-	supposed to
gwydryn	-	a glassful
rhagor	-	more
tameidiau	-	bits
nôl	-	to fetch
cadach (NW)	-	a cloth
clwtyn (SW)	-	a cloth
gofalus	-	careful
trochi (SW)	-	to dirty/to spoil

Golygfa 1

Agnes - Dere 'mlaen nawr, Rhodri - mae hi'n hwyr...

Rhodri - O, Mam...

Agnes - O, Mam - na. Mae ysgol gyda ti yfory...

Rhodri - Deg munud eto.

Agnes - Pyjamas nawr...

Rhodri - Plis, plis, plis, plis, Mam - a dw i'n addo mynd lan yn syth wedyn!

Agnes - Na nawr. Dere. Amser i oedolion ydy hi nawr yntê, Jenny?

Jenny - Nos da, Rhodri...

Rhodri - O, nos da...

Arwyn - Nos da iti.

Agnes - Dwed nos da wrth Arwyn, Rhodri.

Rhodri - Nos da...Nos da, Dadi...

Brian - Nos da...

Agnes - Dere, Rhodri. Ddof fi lan gyda ti i gael 'pip' fach ar Brenda...

Jenny - Chwarae teg. Maen nhw'n blant da iawn on'd ydyn?

Arwyn - Oes eisie i fi roi coedyn arall ar y tân yma? Mae e wedi mynd bach yn isel on'd ydy e?

Jenny - Oes eisiau? Dwi'n 'i gweld hi'n reit boeth yma...

Arwyn - Ond mae hi mor oer tu fas...

Jenny - Wyt ti'n oer, Brian? Wyt ti'n iawn?

Brian - Dim...

Arwyn - Rwy'ti'n oer? Dyna beth ti'n trio ddweud? Ie? Jyst nodia dy ben...

Jenny - Arwyn, plis - rho gyfle iddo fo...

Arwyn - Dim ond trio ei helpu e ydw i...

Brian - ...dim mwy o goed.

Jenny - Dim mwy o goed. Na, dw i'n cytuno, Brian. Does dim eisiau dim mwy o goed ar y tân. Mae hi'n ddigon poeth yma fel mae hi...

Arwyn - Mwy o win? Jenny?

Jenny - Mae gen i ddigon, diolch.

Arwyn - Brian?

Jenny - Arwyn, paid. Cofia beth ddwedodd Agnes. Dydy Brian ddim i fod i yfed mwy nag un gwydryn...

Arwyn - Wnaiff un arall ddim drwg iddo fe. Beth wyt ti'n ddweud, Brian?

Brian - Plis.

Arwyn - Dyna ti.

Jenny - Os wyt ti'n cael un arall, fi fydd yn gyrru ni adra heno, ie?

Arwyn - Ie.

Jenny - Diolch am ofyn imi.

Agnes - Dyna ni. Mae Brenda'n cysgu gyda'r golau'n dal ymlaen...Helpwch eich hunain i ragor o win...
 Arwyn - Rydyn ni newydd wneud...
 Agnes - A'r tameidiau...Yr 'olives' yma...Dewch ymlaen chi'ch dau...
 Arwyn - Gawson ni swper gartre...
 Agnes - Does dim ots, Brei...
 Jenny - Af i i nôl cadach...
 Agnes - Na, na, Jenny - eistedda di...Af fi i nôl clwtyn...
 Jenny - Na, na. Af i...
 Agnes - Edrycha, Brei...Gwin coch dros dy grys glân di...
 Arwyn - A'r trowser hefyd...
 Brian - Paid...
 Agnes - Rhaid iti fod yn fwy gofalus...
 Brian - ff-ff-ff-ff-ff-ff-
 Agnes - Dyma'r trydydd crys iti drochi yr wythnos yma. Sôs coch wrth y bwrdd bwyd nos Fawrth oedd yr un diwetha i fi olchi...
 Jenny - Dyma ti, Agnes - cadach...
 Agnes - Diolch...Dyna ni...Fydd rhaid i hynny wneud y tro am nawr...
 Arwyn - Mae tamaid bach o goch ar grys gwin yn eitha siwtio ti, Brei...
 Brian - ...Meddwl mynd i fyny...
 Agnes - Nawr?
 Brian - Ia.
 Agnes - Ond mae hi'n gynnar eto. Dim ond newydd fynd lan i frwshio'i ddannedd mae Rhodri...
 Jenny - Os ydy Brian wedi blino, Agnes...
 Arwyn - Ie, ie. Cer di. Paid beco amdanon ni...
 Jenny - Na, ddim o gwbl...
 Brian - ...Nos da.
 Arwyn/Jenny - Hwyl/Nos da, Brian!
 Arwyn - A dweud y gwir, Agnes, all Jenny a fi ddim aros yn rhy hwyr chwaith...
 Agnes - Helpwch eich hunain i ragor o win...

Ysbyty Brynaber: Episode 45

Jenny and Arwyn Saunders' evening at the Rees household was difficult for all concerned. On the way home Jenny tells her husband of Brian's affair and his wish that the police should not pursue his assailant.

It's midnight and Agnes offers her husband some help to undress - Brian reacts violently.

Geirfa

galw	-	to call
yn falch	-	glad
mas draw (SW)	-	very much
rhew du	-	black ice
annwyd	-	a cold
tanio	-	to fire (to start the engine of a car)
druan	-	poor thing
saethu	-	to shoot
amlwg	-	obvious
o ddifri	-	seriously
chwalu	-	to destroy
priodas	-	marriage
perygl	-	danger
clou (SW)	-	quick
dychryn	-	to frighten

Golygfa 1

Agnes - Nos da nawr...A diolch am alw heibio...
Jenny - Diolch i ti...Oedd heno'n grêt...Gawson ni amser da...
Agnes - Gwd...Yn falch eich bod chi wedi joio...
Arwyn - Mas draw...
Jenny - Fydd rhaid i ti a Brian a'r plant ddod acw rwan, Agnes...
Agnes - Drefnwn ni rywbryd eto, ie? Cymrwch ofal wrth yrru gartref nawr...
Jenny - Gwnawn ni...
Agnes - Mae eitha lot o rew du ar yr hewlydd...
Jenny - Mi yrra i'n ofalus...Paid ti ag aros allan fan hyn, Agnes - rhag ofn iti ddal annwyd...
Agnes - Wela i ti'n y gwaith yfory...
Jenny - Nos da...Tyrd â'r allweddi i fi 'te.
Arwyn - Diolch byth!
Jenny - Shsh!
Arwyn - Dydy hi ddim yn gallu ein clywed ni.
Jenny - Dwyt ti byth yn gwybod.
Arwyn - Tania'r car 'te. A dere inni gael mynd oddi yma.
Arwyn - Yffach! Am noswaith boring!
Jenny - Doedd dim rhaid inni aros mor hwyr.
Arwyn - Fyddden i wedi mynd pan aeth Brian i'w wely.
Jenny - Mynd adref am naw?
Arwyn - Pam lai? Roeddwn i'n barod.
Jenny - Os oeddet ti'n barod am naw, pam wnes ti yfed yr ail botel win yna?
Arwyn - Beth arall oedd i wneud? Roedd y sgwrs mor 'banal'. Mawredd! Mae'r Agnes Rees yna'n gallu bod mor 'boring' weithiau...A siarad shop. Dyna'r cyfan wnaethon ni trwy'r nos. Siarad am yr ysbyty...
Jenny - A Brian, druan...
Arwyn - Brian, druan. Ie. Oeddet ti'n deall beth roedd e'n ddweud?
Jenny - Ddim llawer.
Arwyn - Rhaid bod e'n beth rhwystredig iawn.
Jenny - Rhwystredig ofnadwy...
Arwyn - Roeddet ti'n gallu gweld ar ei wyneb e...Mae eisiau saethu'r boi Tony yna am wneud beth wnaeth e...A beth sy'n waeth: dydy'r heddlu ddim yn agos at ei ddal e...

Arwyn - A roeddwn i'n sgwrsio heddiw gyda'r Blackburns a phobl eraill y stad...Rydyn ni i gyd yn credu dylen ni gwyno am yr heddlu...Ti'n gwbod, allai 'maniac' fel yna guro ar ddrws unrhyw un...
 Jenny - Does dim pwynt.
 Arwyn - Does dim pwynt? Wrth gwrs fod pwynt!
 Jenny - Na.
 Arwyn - Pam 'te?
 Jenny - Achos mae Brian yn gwybod pwy ydy Tony.
 Arwyn - Pwy ydy e 'te?
 Jenny - Partner y ddynes mae o wedi cael affêr hefo hi ers dwy flynedd.
 Arwyn - Sut wyt ti'n gwybod hyn?
 Jenny - Mi ddwedodd o wrtha i'n yr ysbyty yr wythnos ddiwetha. Mae'r cwbl yn gneud 'sense' on'd ydy?
 Arwyn - Beth?
 Jenny - Ti'n cofio pan est ti a fi i'r 'restaurant' newydd 'na yn Llaniwan ganol mis diwetha? Roedd Brian yno...wyt ti'n cofio?
 Arwyn - Ydw...
 Jenny - Roedd hi'n amlwg ei fod o'n aros am rywun on'd oedd?
 Arwyn - Wel...Dyna ni 'te...Os ydy e'n gwybod pwy ydy e...Mae'n rhaid i'r boi Tony yma gael ei restio...
 Jenny - Dydy Brian ddim eisiau...
 Arwyn - Ar ôl beth wnaeth e iddo fe?
 Arwyn - Ydy Brian o ddifri?
 Jenny - Hollol o ddifri.
 Arwyn - Fe ddweda i yn dawel bach wrth y polis 'te.
 Jenny - Beth? A chwalu priodas Brian ag Agnes? Dyna beth wyt ti eisiu wneud?
 Arwyn - Na.
 Jenny - Mae Brian wedi gofyn i fi ofyn i ti beidio gwneud dim byd.
 Arwyn - Ond mae perygl gaiff y Tony 'ma 'get away'...Gwarthus. Hollol warthus...

Golygfa 2

Agnes - Brian. Wyt ti'n cysgu eto?
 Brian - Na...
 Agnes - Darllen ar y gwely, ie? Ti eisiau i fi dy helpu di i dy byjamas?
 Brian - Na...
 Agnes - Mae hi bron yn hanner nos. Newydd adael mae Jenny ag Arwyn...Yffach, mae'r Arwyn yn gallu bod yn boring withie. Siarad shop. 'Na'r cyfan nethon ni trwy'r nos. Siarad am yr ysbyty. A chredet ti ddim, ond yfodd e'r ail botel o win yna i gyd ar ei ben ei hun...
 Agnes - Gad i fi dy helpu di i ddadwisgo, Brei...
 Brian - Na!
 Agnes - Fyddi di lot cyflymach...
 Brian - Na!
 Agnes - Oes ots gyda ti? Ond dw i'n credu gaf fi fath clou...O! Brian! Pam wnest ti ddim gadael i fi helpu? Dere! Yffach! Ti'n drwm...Allet ti'n helpu i trwy roi dy law ar y gwely fan hyn?
 Agnes - Dere. Gyda'n gilydd? Ar ôl tri - un, dau, - tri...
 Brian - Gad fi fod!
 Agnes - Dim ond trio helpu ydw i.
 Brian - Dw i ddim eisiau dy help di!
 Agnes - Brian! Brian! Paid!
 Rhodri - Beth sy'n bod, Mam?
 Agnes - Rwyt ti'n dychryn y plant! Brian, stopa hi! Stopa hi nawr! Stopa hi wnei di!

Synopsis

Brian has been discharged from hospital but his condition is taxing everyone's patience. In conversation, Agnes with Jenny completely rejected any suggestion that Brian might be having an affair.

Jenny Saunders has told her husband of Brian's wish not to pressurize the police in their attempt to catch Tony.

In utter frustration Brian has torn down the bedroom curtains and smashed some perfume.

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'on the whole'?
 - a) ar y pryd
 - b) **ar y cyfan**
 - c) ar y cyfnod
2. Translate 'he's not as good as' into Welsh
 - a) dydy e ddim yn well
 - b) dydy e ddim yn waeth
 - c) **dydy e ddim crystal**
3. What is the Welsh for 'supposed to'?
 - a) mynd â
 - b) mynd i
 - c) **i fod i**
4. What's the Welsh word in North Wales for to 'understand'?
 - a) **dallt**
 - b) deallaist
 - c) deallodd
5. What's the Welsh for 'for my own sake'?
 - a) er fy hapusrwydd fy hun
 - b) yn fy amser fy hun
 - c) **er fy mwyn fy hun**
6. How would you translate the phrase 'I'm taking the car to the garage' into Welsh?
 - a) Dw i'n nôl y car o'r garej
 - b) **Dw i'n mynd â'r car i'r garej**
 - c) Dw i'n dod â'r car o'r garej